

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

#### Hybu Digwyddiadau Chwaraeon a Diwylliannol Promoting Sporting and Cultural Events

**Q12 David Melding:** Will the First Minister make a statement on efforts to promote Wales as a venue for major sporting and cultural events? OAQ0267(FM)

**C12 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr ymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lle i gynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol pwysig? OAQ0267(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Wales continues to attract major sporting and cultural events. Major football events, the grand prix of Wales women's world cup cycling event in August, our range of festivals and the events staged throughout Wales as a result of our investment in the Ryder Cup 2010, all demonstrate our strong position.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Cymru yn parhau i ddenu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol o bwys. Mae digwyddiadau pêl-droed o bwys, grand prix seiclo cwpan y byd merched Cymru ym mis Awst, ein hamrywiaeth o wyliau a'r digwyddiadau a gynhelir ar hyd a lled Cymru o ganlyniad i'n buddsoddiad yng nghwpan Ryder 2010, oll yn dangos ein sefyllfa gref.

#### Carffosiaeth Cefn Gwlad Rural Sewerage Systems

**Q13 Brynle Williams:** Will the First Minister make a statement on sewerage systems serving the rural parts of Wales? OAQ0295(FM)

**C13 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y systemau carthffosiaeth sy'n gwasanaethu rhannau gwledig Cymru? OAQ0295(FM)

**The First Minister:** Mains sewerage systems are provided to the large majority of premises in Wales, both in urban and rural areas. In areas that are remote from the sewerage network, premises are normally served by cesspits or septic tanks.

**Y Prif Weinidog:** Darperir prif systemau carthffosiaeth i'r rhan fwyaf o safleoedd yng Nghymru, mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mewn ardaloedd sy'n bell oddi wrth y rhwydwaith garthffosiaeth, gweinyddir safleoedd fel arfer gan garthbyllau neu danciau septic.

#### Adfywio De Caerdydd a Phenarth Regenerating Cardiff South and Penarth

**Q14 Lorraine Barrett:** What action is the Welsh Assembly Government taking to regenerate Cardiff South and Penarth? OAQ0298(FM)

**C14 Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i adfywio De Caerdydd a Phenarth? OAQ0298(FM)

**The First Minister:** We are taking action on a number of fronts in Cardiff South and Penarth.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gweithredu mewn sawl ffordd yn Ne Caerdydd a Phenarth. Mae hyn

These include grants to the local authorities for physical regeneration and funding for the community and voluntary sector. There has also been significant investment by the Welsh Development Agency.

yn cynnwys darparu grantiau i'r awdurdodau lleol ar gyfer adfywio ffisegol a chyllid ar gyfer y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol. Cafwyd buddsoddiad sylweddol hefyd gan Awdurdod Datblygu Cymru.

### **Amseroedd Aros Ysbytai Hospital Waiting Times**

**Q15 Kirsty Williams:** Will the First Minister make a statement on hospital waiting times? OAQ0291(FM)

**C15 Kirsty Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar amseroedd aros mewn ysbytai? OAQ0291(FM)

**The First Minister:** Reducing waiting times is one of our priorities. Targets for 2005-06 will ensure that, by March 2006, no patient will be waiting longer than 12 months for a first outpatient appointment and the same applies to waits for in-patient/day-case treatment. We are working to improve on these targets even further.

**Y Prif Weinidog:** Mae gostwng amseroedd aros yn flaenoriaeth gennym. Bydd targedau ar gyfer 2005-06 yn sicrhau na fydd yr un claf erbyn Mawrth 2006 yn aros yn hwy na 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol a bod hynny'n wir am driniaeth cleifion mewnol ac achosion dydd. Yr ydym yn gweithio i wella'r targedau hyn ymhellach.